**Adroddiad Grŵp Prosiect BGC**

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar leoedd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn ymgorffori ymagwedd holistaidd drylwyr at gydnerthedd cymunedol ac unigol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Cadeirydd** | **Gillian Perry**, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Alun Williams, Rhodri Llwyd, Y Cynghorydd Keith Henson, Beti Gordon, **Alison Heal**, Bethan Howell, Nicola Davies, Llinos Williams, **Rachel Auckland**, Gareth Payne, **Andrew McNiff, Cathryn Morgan, Connor Cook, Caitlin Theodorou, Bethan Lloyd Davies** Tîm Partneriaethau: **Timothy Bray**, Sara Dafydd, **Lynne Walters**, Anwen Thomas, **Teleri Elias** | Prifysgol Aberystwyth | Dewi Day |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Rebecca Wright** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Paul Williams, Terri Shaw, Owen Harris **Sharon Hughes**, **Rhian Rees** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Mark Stevens |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru | **Carwyn Davies** | Cynllun Ynni Canolbarth Cymru | Dr Gemma Delafield, Thomas Yeo |
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Neil Evans | Coleg Sir Gar/Ceredigion | Vanessa Cashmore, Louis Dare |
| | | CMGC | **Chesca Ross** |
| EcoDyfi | Jane Powell | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Vikki Butler** |
| Cyngor ar Bopeth | Juliet Morris | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Kelly Williams, Daniel Priddy, **Kate Williams** |
| Menter a Busnes | Ann Owen | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 01.05.24**

**13.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd, Gillian Perry (GP), yr aelodau i'r cyfarfod a gwnaeth pawb gyflwyno eu hunain. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:
Y Cynghorydd Alun Williams – Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Keith Henson – Cyngor Sir Ceredigion
Koi Merebark – Prifysgol y Drindod Dewi Sant

**13.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22.01.24 yn gywir a dywedwyd y byddai'r camau gweithredu yn cael sylw fel rhan o agenda'r cyfarfod hwn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y camau gweithredu blaenorol:

- **Byddai Lynne Walters yn ailanfon y daenlen Excel a oedd yn cynnwys y blaenoriaethau fel y gallai'r aelodau fewnbynnu a diweddaru eu gwybodaeth.**

Roedd y daflen Excel wedi'i dosbarthu gyda'r papurau. Dywedodd Lynne Walters (LW) fod dal cyfle i'r aelodau gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddogfen hon. Pwysleisiodd GP pa mor bwysig oedd diweddaru'r tabl hwn.

- **Byddai Ann Owen yn darparu adroddiad ysgrifenedig gan nodi statws holl brosiectau'r sector bwyd ar ddiwedd y cam hwn o'r prosiect wrth barhau â'r gwaith o sefydlu Rhwydwaith Bwyd Ceredigion.**

Byddai adroddiad terfynol y Rhwydwaith Bwyd yn cael ei ddosbarthu unwaith y byddai ar gael. Roedd elfennau o'r prosiect hwn yn parhau i fynd rhagddynt. Roedd y materion a oedd yn ymwneud â chaffael bwyd a thlodi bwyd yn allweddol. Roedd LW yn gobeithio y byddai contract Ann Owen, a oedd wedi'i sefydlu yn y lle cyntaf drwy Menter a Busnes, yn parhau ond roeddem yn dal i aros am gadarnhad ynghylch y cyllid. Dywedodd GP y byddai'r grŵp hwn yn cefnogi unrhyw fwriad i ehangu'r adnodd hwn.

**<u>13.3 Eitem sefydlog : Diweddariad BGC - Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni BGC Ceredigion – gan gynnwys adborth gan y BGC.</u>**

Rhoddodd Timothy Bray (TB) ddiweddariad am gynllun cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y cynllun yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd a byddai'n cael ei gyhoeddi cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, cytunwyd y byddai 'sesiynau sbotolau' yn cael eu cynnal yn ystod cyfarfodydd a dywedwyd mai'r grŵp hwn fyddai'r cyntaf i dreialu hyn. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddai'r aelodau yn taro golwg ar flaenoriaethau'r grŵp ynghyd â'r Asesiad Risg o ran Newid Hinsawdd. Roedd disgwyl i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni'r darn hwn o waith. Roedd yr eitem hon ar agenda'r cyfarfod hwn heddiw a byddai'r Cadeirydd yn ein tywys drwy'r eitem hon yn ddiweddarach.

Dywedodd TB ei fod ef a Hazel Lloyd Lubran wedi mynychu digwyddiad dysgu yn Wrecsam lle cawsant fanylion am brofiadau ardaloedd eraill a syniadau newydd posibl o ran y modd yr oedd Byrddau eraill yn gweithredu. Ymhlith y syniadau yr oedd ardaloedd eraill wedi'u rhoi ar waith oedd model aur, arian ac efydd ar gyfer trefniadau llywodraethu'r byrddau a dyma oedd y fframwaith yr oeddent yn ei ddefnyddio i gyflawni eu gwaith. Roedd y fframwaith hwn bellach wedi'i gynnwys yn y cynllun cyflenwi. Hefyd, roedd trefn ar gyfer tracio camau gweithredu wedi'i chynnwys a byddai hyn yn cael ei ddiweddaru ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Pwysleisiwyd bod pob grŵp yn gyfrifol am yr ystod eang o amcanion llesiant ond bod blaenoriaethau i'w rhoi ar waith wedi'u pennu yn dilyn y gweithdai. Yn unol â chais y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd grŵp gorchwyl a gorffen wedi cwrdd yn ddiweddar i drafod y lansiad. Roedd aelodau'r grŵp ar hyn o bryd yn casglu'r awgrymiadau a gafwyd yn y cyfarfod a byddai cynnig yn mynd gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O ystyried yr amserlenni dan sylw, dywedodd TB ei bod yn bosib bellach y byddai'r lansiad yn canolbwyntio ar themâu'r tri is-grŵp ac y byddai modd ystyried cynnal digwyddiadau ynghylch y meysydd hyn cyn y lansiad. Gallai hyn wedyn arwain at wahodd gweithwyr proffesiynol i lansiad cyn diwedd yr haf.

Dywedodd TB wrth y panel y byddai'r Comisiynydd yn ymweld ag awdurdodau lleol yn y dyfodol agos i drafod tlodi gwledig. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod gwiriwr cynnydd 'Ffyrdd o Weithio' wedi'i gyhoeddi ar wefan llesiant y Comisiynydd a bod y teclyn hwn yn caniatáu i'r Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau i wirio eu cynnydd yn erbyn y ffyrdd o weithio a oedd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Llesiant. Roedd y Comisiynydd wedi anfon llythyr yn ddiweddar at gyrff cyhoeddus a oedd yn eu hannog i ddefnyddio'r teclyn, a byddai'r canlyniadau hyn yn cael eu rhannu erbyn 9 Medi, 2024. Dywedodd TB fod bwletin y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael. Byddai'r gwiriwr cynnydd 'Ffyrdd o Weithio' yn cael ei ystyried gan y Bwrdd dros y misoedd nesaf.

Awgrymodd GP y byddai'n syniad cael sgwrs â TB y tu allan i'r cyfarfod hwn i drafod sut y byddai'r gwiriwr cynnydd 'Ffyrdd o Weithio' yn gweithio o ran yr Asesiad Risgiau a Chyfleoedd o ran Newid Hinsawdd.

**13.4 Cylch Gorchwyl, blaenoriaethau ac aelodaeth.**

Roedd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod hwn fel y gallai'r aelodau ei ystyried. Os oedd gan aelodau'r grŵp unrhyw adborth, dywedwyd wrthynt y dylent gysylltu â'r tîm partneriaethau: partneriaethau@ceredigion.gov.uk. Roedd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru i gynnwys y cynllun llesiant newydd ac i adlewyrchu'r themâu trawsbynciol. Roedd mater aelodaeth y grŵp hwn wedi'i godi yn un o'r cyfarfodydd blaenorol a gofynnwyd yn garedig i'r partneriaid roi gwybod i'r tîm partneriaethau am unrhyw fylchau o ran cynrychiolaeth.

.

**Cam Gweithredu- Byddai cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu Dyfed Powys yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y dyfodol.**

Nododd GP mai ei gobaith oedd y byddai'r grŵp hwn yn gwneud mwy yn y cymunedau lleol. O ystyried hyn, awgrymodd GP y gellid cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb neu ymweliadau safle yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu – Byddai trafodaeth ynghylch cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei chynnwys ar agenda un o gyfarfodydd y dyfodol. Byddai aelodau'r Grŵp yn ystyried y mater hwn wrth baratoi i ddarparu eu syniadau.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am y prosiectau a'r cynlluniau a oedd yn cael eu cyflawni a'r modd yr oeddent yn ymwneud ag amcanion y grŵp hwn. Dywedodd GP mai'r man cychwyn oedd y daflen Excel a oedd yn cael ei rhannu â'r aelodau cyn bob cyfarfod a nododd fod y daflen yn ddogfen ddefnyddiol i gofnodi pob prosiect a oedd yn mynd rhagddo. Roedd hefyd yn bwysig adrodd am y modd yr oedd y camau gweithredu yn cyd-fynd yn strategol â'r strategaethau yr oedd y partneriaid wedi'u cyhoeddi. Nododd GP y byddai'n werth archwilio'r posibilrwydd o gael mecanwaith i rannu gwybodaeth ag aelodau'r grŵp. Wrth ymateb, dywedodd TB wrth y panel fod y Bwrdd wedi datblygu cais

ar gyfer llwyfan Gorwel gan nodi y byddai'r llwyfan hwn yn darparu hysbysfwrdd ac yn caniatáu i sefydliadau ac awdurdodau lleol fewngofnodi ac ychwanegu dogfennau. Awgrymodd Chesca Ross y dylid edrych ar lwyfan Cysylltu Ceredigion a oedd yn cysylltu cymunedau a sefydliadau ar draws Ceredigion â'i gilydd gan ddarparu pont rhwng gwahanol lwyfannau.

**Cam Gweithredu – Byddai'r Aelodau yn derbyn diweddariad am lwyfan Gorwel yn un o gyfarfodydd y dyfodol.**

**Cam Gweithredu- Byddai'r tîm partneriaethau yn cysylltu ag is-grwpiau eraill y Bwrdd i drafod sut yr oeddent yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth am y prosiectau a'r cynlluniau a oedd yn cael eu rhoi ar waith.**

**Cam Gweithredu- Byddai'r aelodau yn rhannu profiadau eu sefydliadau o'r modd yr oeddent yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth am y prosiectau a'r cynlluniau a oedd yn cael eu rhoi ar waith.**

**<u>13.5 Asesiad Risgiau a Chyfleoedd o ran Newid Hinsawdd</u>**

Rhoddodd GP drosolwg cryno o'r Asesiad Risgiau a Chyfleoedd o ran Newid Hinsawdd. Roedd hyn yn amlinellu'r fframwaith a oedd yn nodi cyfrifoldeb y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cynnal "Asesiad Risg Newid Hinsawdd". Cyflwynodd GP Rebecca Wright i'r Grŵp, rhywun a fyddai'n chwarae rhan allweddol ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddatblygu'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer y Bwrdd. Roedd modd gweld manylion llawn fframwaith cefnogi'r Bwrdd drwy ddilyn y ddolen isod. Roedd y fframwaith hwn wedi'i ddatblygu'n benodol i helpu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y risgiau yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig ac roedd yn rhoi sylw i'r cyd-destun lleol o ran llesiant. Roedd wedi'i greu gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i'w ddefnyddio gan ymarferwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bwriad hyn oedd cyflymu prosesau'r Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cyflwyno camau gweithredu effeithiol ar gyfer addasu i'r sefyllfa sydd ohoni. Trwy ei roi ar waith, byddai'n helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fod yn fwy gwybodus am y bygythiad yr oedd newid hinsawdd yn ei achosi, yn awr ac yn y dyfodol, i lesiant cymunedau mewn ardal leol.
Dylai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r fframwaith hwn i'w helpu i gyflawni'r Cynllun Llesiant. Hefyd, byddai'n helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod partneriaethau eraill a chynlluniau'r sector cyhoeddus yn ystyried effeithiau amrywiol a chronnol newid hinsawdd ar lesiant yn eu hardal leol.

Climate Change Risk
Assessment Framewo

Nododd GP nad oedd dim arian ynghlwm wrth yr asesiad hwn. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i gael gafael ar gyllid a sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac roeddent wedi penodi aelodau ychwanegol o staff i weithio'n benodol ar y darn hwn o waith. Nododd GP fod gofyniad cyfreithiol i ymgymryd â'r gwaith hwn ond nad oedd dyddiad cau wedi'i bennu ar gyfer ei gwblhau. Roedd hyn yn elfen hanfodol yn y cynllun llesiant nesaf. Dywedodd TB wrth y grŵp bod Cynllun Llesiant presennol y Bwrdd yn dod i ben ym mis Mai 2028.

Rhoddodd Sharon Hughes (SH) wybod i'r panel am grant ASPW3, a oedd yn gysylltiedig â'r hinsawdd a datgarboneiddio. Roedd yn rhaid i'r cais am y grant hwn fod mewn cydweithrediad â chorff arall yn y sector cyhoeddus ac roedd modd gwneud cais am gyllid cyfalaf a refeniw. Dywedodd GP y byddai'r Asesiad Effaith ar Iechyd, Map Data Cymru a Chyfiawnder Hinsawdd yn cael eu cydnabod fel adnoddau y byddai modd cyfeirio atynt.

Soniodd Vikki Butler (VB) am drafodaeth yr oedd Project Dewi, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru wedi'i chael gan nodi y byddent yn dymuno cynnal digwyddiadau dysgu ar y cyd. Hefyd, gofynnodd VB a fyddai'r gymuned yn rhan o'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd. Byddai grwpiau ffocws / grwpiau â diddordeb yn cyfrannu at y gwaith o baratoi'r asesiad risg ac yn llywio'r broses honno.

Gofynnodd Cathryn Morgan (CM) a fyddai'r fframwaith yn cynnwys gwybodaeth am ba mor barod oedd y gweithlu (o ran y sgiliau a'r hyfforddiant a oedd eisoes ar gael) i gefnogi'r ymateb i'r seilwaith gwyrdd a datblygu'r camau gweithredu ar gyfer addasu. Cadarnhaodd GP y byddai angen i bobl a oedd yn meddu ar y sgiliau cywir a'r profiad perthnasol i ddatblygu'r asesiad. Byddai CM yn medru darparu dolenni at wybodaeth ynghylch y capasiti o ran sgiliau a dywedodd y gallai hynny fod o ddiddordeb.

Dywedodd GP y byddai trafodaeth am y Fframwaith Asesu Newid Hinsawdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin.

**Cam Gweithredu – Byddai aelodau'r Grŵp yn derbyn copi o Fframwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd a gyflwynwyd gan Gillian Perry yn y cyfarfod hwn.**
**Cam Gweithredu – Nododd yr aelodau y byddai'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn cael ei drafod yn fanwl yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mehefin o dan yr eitem sbotolau.**

Nododd LW fod yr Asesiad Newid Hinsawdd ac Ymgysylltu â'r Gymuned wedi'u nodi'n glir fel tasgau a blaenoriaethau ar gyfer y grŵp hwn. Byddai'r cynnydd a wneir yn cyfrannu ymhellach at y broses o fonitro data yng nghyswllt gwaith a thasgau'r grŵp hwn ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r hinsawdd.

**13.6 Diweddariad ar y Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) a throsolwg o'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu.**

Rhoddodd Bethan Lloyd Davies (BLD) ddiweddariad ar y Cynllun Ynni Ardal Lleol. Dywedodd BLD fod y ddogfen ar hyn o bryd yn cael ei diwygio er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch i bawb. Byddai'r Cynllun Ynni Ardal Leol yn mynd gerbron y Cabinet ym mis Mai a dywedodd BLD y byddai dogfennau'r Cabinet yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn yr wythnosau nesaf.

Byddai Aelodau'r Cabinet yn pwyso a mesur y camau a nodir yn y Cynllun Ynni Ardal Leol gan ystyried sut y byddent yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru. Byddent hefyd yn ystyried sut y gellir ymgysylltu a chyfathrebu ymhellach â'r rhanddeiliaid, busnesau lleol a thrigolion Ceredigion. Roedd arolwg wedi'i gynnal ac roedd mwy na 500 wedi ymateb iddo. Byddai'r ymatebion hyn yn awr yn cael eu dadansoddi a byddai adroddiad am y canfyddiadau wedyn yn cael ei rannu â'r grŵp.

Daeth mwy na 100 o bobl i'r digwyddiad busnes a oedd wedi'i gynnal ar Fferm Bargoed i drafod datgarboneiddio. Roedd adborth yn dilyn y sesiwn hon yn cael ei ystyried yn awr. Ar nodyn cadarnhaol, roedd y busnesau yn gyffredinol wedi dangos bod ganddynt ddiddordeb ymwneud â'r gwaith hwn. Roedd y swyddogion yn awr yn ystyried cynnal gweminar gyda'r bwriad o sicrhau bod y sgyrsiau yn parhau. Roeddent yn gobeithio y byddai modd ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer sefydlu system ynni clyfar yn lleol. Byddai dyddiadau unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol a gwybodaeth am waith asesu yn cael eu rhannu â'r grŵp.

**Cam Gweithredu- Byddai diweddariad am y Cynllun Ynni Ardal Lleol ynghyd â'r dolenni i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn cael eu rhannu yn dilyn cyfarfod y Cabinet ym mis Mai.**

**Cam Gweithredu- Byddai BLD yn rhannu'r adroddiad am y digwyddiad unwaith y byddai'n barod a byddai manylion gweminarau / digwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu rhannu â'r partneriaid.**

**<u>13.7 "Siarter Teithio Iach" – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Rhian Rees</u>**

Rhoddodd Rhian Rees (RR) gyflwyniad i'r grŵp a rhoddodd ddiweddariad am yr addewidion yn Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cytunwyd y dylid cyflwyno'r addewidion drafft gerbron y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 3 Mehefin.

**Cam Gweithredu – Byddai GP yn cynnwys Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eitem sbotolau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin er mwyn gofyn am gefnogaeth y partneriaid i'w lofnodi.**

04.24final PSB Ceredigion v1.pptx

**https://www.teithiollesol.cymru/**

Dywedodd Sharon Hughes (SH) fod angen ystyried pob agwedd ar y gwaith wrth edrych ar wasanaethau yn y dyfodol gan y gallai costau refeniw ychwanegol gael eu codi ar y gwasanaethau eu hunain wrth ymchwilio i faterion megis symud swyddfeydd a sefydlu hwb ar gyfer y sector cyhoeddus.

Cadarnhaodd GP y byddent yn cyflwyno'r Siarter Teithio'n Iach i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y gallai'r aelodau yn y fan honno ei ystyried a'i fabwysiadu / ymrwymo iddo. Byddai GP yn cael sgwrs â LW a TB y tu allan i'r cyfarfod i drafod sut y byddent yn mynd ati i gyflwyno'r siarter i'r Bwrdd.

Dywedodd CM wrth y grŵp fod yr is-grŵp tlodi wedi creu bwletin misol. Y pwnc ar gyfer rhifyn mis Mai fyddai Teithio a Thrafnidiaeth. Nododd CM fod cam gweithredu wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod Lleol ynghylch gweithio â phartneriaid i ddatblygu dull fforddiadwy o deithio'. Roedd y siarter teithio iach yn cyd-fynd yn dda â'r cam gweithredu hwn.

Byddai RR yn rhannu gwybodaeth am gyfarfod â grŵp rhanddeiliaid y siarter y byddai'n mynd iddo yn yr wythnosau nesaf i drafod y diweddaraf am y cynllun 'Taith i' ym Mhowys sef cynllun clybiau ceir a oedd yn cynnwys ceir trydan.

Rhannodd SH wybodaeth â'r grŵp am y gwasanaeth bws am ddim, cynllun ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, a fyddai'n dod i ben ym mis Mai. Fel yr oedd cyflwyniad RR yn dangos, bu'r cynllun peilot yn llwyddiannus iawn gyda mwy na 1300 o siwrneiau bws ychwanegol yn cael eu cofnodi. Cadarnhaodd SH fod y bwrdd iechyd yn awr yn gweithio ar strategaeth hirdymor ar gyfer staff y bwrdd iechyd yn y maes hwn.

Dywedodd LW fod Geinor Jones (GJ) wedi rhoi cyflwyniad i gyfarfod grŵp Aberteifi am y Strategaeth Ymagwedd System Gyfan: Pwysau Iach Cymru Iach. Roedd nifer o themâu i'r ymagwedd hirdymor hon. O ran y grŵp hwn, roedd yna ystyriaethau o ran trafnidiaeth, ynni a darpariaeth bwyd. Roedd GJ wedi nodi bod ganddi ddiddordeb mewn cadw mewn cysylltiad â'r grŵp hwn yn ystod y cyfnod nesaf. Gallwch weld fideo byr sy'n amlinellu'r strategaeth hon drwy ddilyn y ddolen isod:

https://pwysauiach.cymru/systemau/

| |
|---|
| **Cam Gweithredu – Gofynnir i'r aelodau ystyried Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach a threulio ychydig o funudau yn gwylio fideo am y strategaeth. Byddai GJ yn cael gwahoddiad i un o gyfarfodydd y grŵp hwn yn y dyfodol.**<br><br>**<u>13.8 Diweddariadau partneriaid – Pawb a diweddariad ar y Bartneriaeth Natur Leol</u>**<br><br>Rhoddodd Rachel Auckland (RA) ddiweddariad byr ar y Bartneriaeth Natur Leol. Dyma ddolen at dudalen Partneriaeth Natur Leol Ceredigion ar wefan y Cyngor:<br>https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/arolwg-partneriaeth-natur-leol-ceredigion/<br><br>Rhoddodd RA y manylion diweddaraf ynglŷn â'r cyfleoedd am gyllid o ran Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ddylai fod ar gael yn fuan. Roeddent wedi sicrhau cyllid i ariannu prosiectau gyda'r bwriad o greu, adfer a gwella cynefinoedd naturiol i wella bioamrywiaeth o fewn cymunedau.<br><br>Dywedodd RA fod ail ddrafft y Cynllun Gweithredu Adfer Natur bellach ar gael ac mai'r bwriad oedd cyhoeddi'r cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Dywedodd RA wrth y grŵp y byddai rownd arall o ymgysylltu ac ymgynghori yn cael ei gynnal yn seiliedig ar gynnwys y cynllun hwn eleni.<br><br>**<u>13.9 Unrhyw fater arall:</u>**<br><br>- **Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd (THINK)**<br>Rhannwyd dolen ynghylch y Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd (THINK) yn ystod y cyfarfod<br><br>Dywedodd GP y dylai'r partneriaid anfon neges e-bost at aelodau'r tîm partneriaethau os oedd ganddynt unrhyw eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mehefin: partneriaethau@ceredigion.gov.uk .<br><br>**<u>13.10 Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</u>**<br>8/7/24 10am -12pm. |
| **Crynodeb o'r camau gweithredu** |

| |
|---|
| **Byddai cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu Dyfed Powys yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y dyfodol.** |
| **Byddai trafodaeth ynghylch cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei chynnwys ar agenda un o gyfarfodydd y dyfodol. Byddai aelodau'r Grŵp yn ystyried y mater hwn wrth baratoi i ddarparu eu syniadau.** |
| **Byddai'r Aelodau yn derbyn diweddariad am lwyfan Gorwel yn un o gyfarfodydd y dyfodol.** |
| **Byddai'r tîm partneriaethau yn cysylltu ag is-grwpiau eraill y Bwrdd i drafod sut yr oeddent yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth am y prosiectau a'r cynlluniau a oedd yn cael eu rhoi ar waith.** |
| **Byddai'r aelodau yn rhannu profiadau eu sefydliadau o'r modd yr oeddent yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth am y prosiectau a'r cynlluniau a oedd yn cael eu rhoi ar waith.** |
| **Byddai aelodau'r Grŵp yn derbyn copi o Fframwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd a gyflwynwyd gan Gillian Perry yn y cyfarfod hwn.** |
| **Nododd yr aelodau y byddai'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn cael ei drafod yn fanwl yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mehefin o dan yr eitem sbotolau.** |
| **Byddai diweddariad am y Cynllun Ynni Ardal Lleol ynghyd â'r dolenni i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn cael eu rhannu yn dilyn cyfarfod y Cabinet ym mis Mai.** |
| **Byddai BLD yn rhannu'r adroddiad am y digwyddiad unwaith y byddai'n barod a byddai manylion gweminarau / digwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu rhannu â'r partneriaid.** |
| **Byddai GP yn cynnwys Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eitem sbotolau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin er mwyn gofyn am gefnogaeth y partneriaid i'w lofnodi.** |
| **Gofynnir i'r aelodau ystyried Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach a threulio ychydig o funudau yn gwylio fideo am y strategaeth. Byddai GJ yn cael gwahoddiad i un o gyfarfodydd y grŵp hwn yn y dyfodol.** |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |